

Ar yr 20ed o Ionawr 2010 cynhaliodd Gary Yeomans a'i filfeddyg Mathew Pugh weithdy CALU ar fferm Pant ger Y Fenni, Mae'r daflen ffeithiau hon yn seileidig ar yr hyn a drafodwyd yn y gweithdy hwnnw.

Gall achosion heintus a di-heintus arwain at gloffni mewn Geifr. Mae Cloffni sy'n cychwyn o achos di-heintus yn gallu arwain yn aml at haint. Mae'r achosion heintus yn cynwys Llosg Carn (dermatitis digidol), anaf clwy'r traed a mange. Mae'r achosion di-heintus yn cynnwys anafiadau wrth drin, granuloma bys bach troed, cam shelly, carnau wedi gofr-dyfu, ysgriffiadau a chornwydd. Gellid atal a thrin achosion cloffni heintus a di-heintus fel ei gilydd.

GWAITH ATALIOL

Un o brif achosion cychwynnol cloffni yw ei gor-wneud hi wrth docio traed. Os caiff y droed ei or-docio, gall hyn niweidio'r cornium, sef y meinwe sy'n cynhyrchu'r corn. Os niweidir y meinwe hwn, mae'r droed wedyn yn fwy agored i haint. Wrth docio, ceisiwch gadw uchder y sawdl: mae troed fflat yn rhoi gormod o bwysau ar y wadn.

Mae heintiau bacteria'n datblygu trwy gyfuniad o fod yn agored i leithder a thrawma mecanyddol. Ble bo'n bosib, ceisiwch leihau'r trawma i'r traed. Os oes gennych eifr llaeth, gellid gosod matiau rwber yn y parlwr godro er mwyn lleihau'r trawma ar y traed pan fo'r anifeiliaid yn troi i gael eu godro.

Mae amledd y tocio traed yn dibynnu ar faint eich fferm; mae Gary Yeomans yn tocio traed unwaith pob chwe mis. Mae Gary'n cael cymorth gyda'r tocio gan gontractwr profiadol sy'n defnyddio rôl pneumatig dros grât a gwellau. Ddylai traed fyth gael eu tocio yng ngorlan y myn gan y gall hyn ledu heintiau trwy'r holl eifr.

Mae dewis anifeiliaid ar gyfer ymwrthod â chloffni yn ddull ataliol llwyddiannus iawn; cadwch gofnodion ar gyfer eich holl anifeiliaid sydd wedi eu heffeithio. Trwy wneud hynny, byddwch yn gwybod pa anifeiliaid sy'n dueddol o ddatblygu cyflyrau. Wrth brynu anifeiliaid newydd ar gyfer y fferm, cofiwch eu neilltuo am o leiaf dair wythnos. Cymrwch olwg go dda ar draed yr anifeiliaid cyn prynu. Hefyd, edrychwch ar iechyd yr anifeiliaid eraill y bu yn eu cwmni.

Mae'n bwysig iawn nodi bod system iminwnedd geifr yn wahanol iawn i system imiwnedd defaid. Ni fydd brechiadau sydd wedi'u defnyddio ar ddefaid i osgoi clwy'r traed yn gweithio yn yr un modd ar gyfer geifr.

Yn Fferm Pant, mae Gary'n bwydo'i eifr gyda Biotin trwy'r flwyddyn, hawlir bod y porthiant hwn yn cryfhau'r traed gan eu gwneud yn fwy gwydn ar gyfer gwrthsefyll clwy'r traed ayb

TRINIAETH

Os oes gennych niferoedd mawr o eifr, gall golchi traed gwrth-factoria drin anafiadau cynnar yn effeithiol a lleihau heintiau wrth ei ddefnyddio'n iawn. Rhaid i'r baddonau traed fod yn lân ac mae'n rhaid i'r toddiant gael ei gymysgu mewn cyfrannedd. Hefyd mae'n rhaid i'r geifr gerdded allan o'r bath a glanio ar lawr caled.

Unwaith fo haint bacteriaidd wedi gafael, mae'n bwysig ei drin cyn gynted â phosib, gan y gallai'r haint niweidio'r meinwe cynhyrchu corn. Unwaith y mae anifail wedi'i ddynodi, dylid ei drin gyda lladdwyr poen a'i gadw ar wahân er mwyn osgoi lledu'r haint trwy'r holl eifr. Gellid hefyd trin yr anifail trwy docio traed a phigiadau gwrth-feiotig,

Er mwyn trin cloffni mewn geifr yn effeithiol, mae gofyn dynodi'r broblem yn iawn, ac ymgynghori gyda'ch mil-feddyg cyn triniaeth. Cofiwch, mae ataliad yn well na iachâd.

